# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 6 Hydref 2015

Amser: 09.03 - 10.15

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3251

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | William Powell AC (Cadeirydd)<br>Russell George AC<br>Bethan Jenkins AC<br>Joyce Watson AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Steve George (Clerc)<br>Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)<br>Kath Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd)<br>Lisa Salkeld (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 135KB) Gweld fel HTML (105KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-04-650 Cael Gwared ar Gyflogau Cynghorwyr Llywodraeth Leol

Datganodd William Powell y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n aelod o Gyngor Sir Powys.

Datganodd Russell George y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae'n aelod o Gyngor Sir Powys.

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn iddo egluro rhai o'r materion a godwyd yng ngeiriad y ddeiseb; ac
- aros am farn y deisebydd ynghylch llythyr gwreiddiol y Gweinidog.

### 2.2 P-04-652 Android ac iOS, Cymraeg yn yr 21ain Ganrif?

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb am y tro cyntaf, a chytunwyd i aros i glywed barn y deisebydd cyn ymateb i'r Prif Weinidog.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-408 Gwasanaeth i Atal Anhwylderau Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc

Datganodd Bethan Jenkins y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Hi yw Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta.

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gasglu hanes ystyriaeth y Pwyllgor o'r mater a chyflwyno adroddiad i'r Cynulliad cyn cau'r ddeiseb.

### 3.2 P-04-492 Diagnosis o awtistiaeth ymysg plant

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i:

- aros am gyhoeddi Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen; ac
- yn y cyfamser, cytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn iddo roi amserlen ar gyfer yr adolygiad i'r Pwyllgor, ac i ofyn ei farn am alwad yr Athro Trevor Purt am ragor o ganllawiau ar y polisi o ran cyfraniadau cymharol gwasanaethau Iechyd Plant Cymunedol / Pediatreg Cymunedol a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

### 3.3 P-04-532 Gwella Gwasanaethau Niwrogyhyrol Arbenigol yng Nghymru

Datganodd Bethan Jenkins y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Hi yw Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Nychdod Cyhyrol a Chyflyrau Niwrogyhyrol.

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i:

- holi Byrddau Iechyd sut y gall manteision amser ychwanegol gydag ymgynghorwyr niwrogyhyrol (a nodwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn arbennig) gael eu gwireddu ar draws Cymru.
- ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gofyn iddo ystyried y mater fel rhan o'i flaenraglen waith.

### 3.4 P-04-640 Gostwng yr Oedran ar gyfer Profion Ceg y Groth i 18

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i:

- roi rhagor o amser i'r deisebydd roi sylwadau ar y wybodaeth sylweddol a ddarparwyd gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU; a
- gofyn ei barn am y llythyr diweddar gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### 3.5 P-04-539 Achub Cyfnewidfa Lo Caerdydd

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i aros am sylwadau gan y deisebydd cyn ystyried camau pellach.

### 3.6 P-04-544 Gwahardd Saethu Gwyddau Talcen-wen yr Ynys Las

Datganodd Joyce Watson y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae hi yn ymwneud â nifer o grwpiau sydd o blaid y ddeiseb.

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i:

- aros am sylwadau gan y deisebwyr; a
- chau'r ddeiseb os nad oes sylwadau'n dod i law yn y 6 wythnos nesaf.

### 3.7 P-04-632 Mynyddoedd Pawb

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i:

- ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog yn gofyn am ei sylwadau ar sylwadau Comisiynydd y Gymraeg a Chadeirydd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a oedd, ar y cyfan, yn gefnogol iawn i amcanion y ddeiseb; a
    - gofyn a yw wedi bod yn trafod y mater gydag unrhyw weinidogion eraill.
- trosglwyddo'r ohebiaeth a gafwyd i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol er mwyn iddo fod yn ymwybodol ohoni, a'i hystyried wrth drafod y Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru);
- gofyn eto am ymateb gan Groeso Cymru a Chynghrair Twristiaeth Cymru; a
- sicrhau bod y deisebwyr yn ymwybodol y gallant gysylltu ag Aelodau eraill o'r Cynulliad ac Aelodau'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, o gofio bod y Pwyllgor hwnnw'n ystyried y Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Adolygiad o System Ddeisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Trafododd y Pwyllgor y cynnydd a wnaed o ran adolygu’r system ddeisebau.